# CYFARFOD ARBENNIG O GYNGOR SIR YNYS MÔN

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Mehefin 2012**

**YN BRESENNOL:**

Y Cynghorydd R.Ll. Jones - Cadeirydd
Y Cynghorydd E. G. Davies - Is-Gadeirydd

Y Cynghorwyr W. J. Chorlton, Lewis Davies, R. Anthony Dew, Jim Evans, K. Evans, C. Ll. Everett, D. R. Hughes, Ff. M. Hughes, K. P. Hughes, T. Ll. Hughes, W. I. Hughes, W. T. Hughes, Eric Jones, G. O. Jones, H. Eifion Jones, O. Glyn Jones, Raymond Jones, R. Dylan Jones, Tom Jones, Bryan Owen, R. L. Owen, J. V. Owen, G. O. Parry MBE, R. G. Parry OBE, Eric Roberts, J. Arwel Roberts, G. Winston Roberts OBE, P. S. Rogers, E. Schofield, H. W. Thomas, S. Williams.

**WRTH LAW**:

Prif Weithredwr
Dirprwy Brif Weithredwraig
Pennaeth Swyddogaeth (Cyfreithiol a Gweinyddol)
Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid)
Pennaeth Gwasanaeth (Tai)
Rheolwr Cynlluniau Argyfwng a Chefnogaeth Ganolog (AKW)
Rheolwr Gwasanaethau Pwyllgor
Swyddog Cyfathrebu.

**HEFYD YN BRESENNOL:**

Y Comisiynydd Gareth Jones

**YMDDIHEURIADAU**:

Y Comisiynwyr Alex Aldridge, Byron Davies, M. Giannasi a M. Foster, y Cynghorwyr R. Ll. Hughes, A. Morris Jones, C. McGregor, Ieuan Williams.

---

Estynnodd y Cadeirydd groeso cynnes i Mrs Bethan Eleri Jones, y Dirprwy Brif Weithredwraig a oedd newydd gael ei phenodi ac a oedd yn mynychu cyfarfod o'r Cyngor am y tro cyntaf.

Draft

## 1. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Gwnaeth y Cynghorwyr W. J. Chorlton, Ff. M. Hughes, T. Ll. Hughes, Bryan Owen, J. V. Owen, J. Arwel Roberts a G. W. Roberts, OBE ddatganiad o ddiddordeb yn eitem 4 y cofnodion hyn ac nid oeddent yn bresennol yn y cyfarfod yn ystod y drafodaeth na'r bleidlais arni.

Gwnaed datganiad o ddiddordeb yn eitem 4 y cofnodion gan y Cadeirydd. Arhosodd yn y cyfarfod ond ni chymerodd unrhyw ran yn y drafodaeth na'r bleidlais arni.

Gwnaeth y Cynghorydd Selwyn Williams ddatganiad o ddiddordeb yn eitem 4 y cofnodion. Arhosodd yn y cyfarfod ond ni chymerodd unrhyw ran yn y drafodaeth na'r bleidlais arni.

2. **DERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD, ARWEINYDD Y CYNGOR, Y BWRDD COMISIYNWYR NEU BENNAETH Y GWASANAETHAU TALEDIG**

Atgoffwyd y cyfarfod gan y Prif Weithredwr fod y Gweinidog ar gyfer Llywodraeth Leol a Chymunedau wedi gwahodd 30 o aelodau etholedig o bob awdurdod yng Ngogledd Cymru i ddod i seminar ranbarthol ynghylch ôl-troed cydweithredol ar gyfer gwella gwasanaethau cyhoeddus. Cynhelir y seminar ar ddydd Iau 5 Gorffennaf 2012 yn Venue Cymru, Llandudno. Ymbiliodd ar yr aelodau i wneud pob ymdrech i fynychu.

3. **PENODI AELOD/AELODAU LLEYG I WASANAETHU AR Y PWYLLGOR ARCHWILIO**

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid) - Bod yn rhaid i o leiaf un aelod o Bwyllgor Archwilio, yn unol â'r gyfraith, fod yn aelod lleyg, a bod Mesur 2011 yn nodi bod rhaid penodi aelodau lleyg erbyn 30 Ebrill 2012. Fodd bynnag, nid oedd aelodaeth y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 24 Mai 2012 yn cynnwys aelod lleyg ac felly roedd y Pwyllgor wedi ei gynnull yn anghyfreithlon ac ystyriwyd bod ei benderfyniadau yn anghyfreithlon.

Er mwyn unioni'r sefyllfa, gofynnwyd i'r Cyngor gadarnhau cofnodion drafft y cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 24 Mai 2012. Byddai hynny'n caniatáu penodi'r aelodau lleyg hyn ac yn eu galluogi hefyd i ddod i'r cyfarfod arferol nesaf o'r Pwyllgor Archwilio ar 24 Gorffennaf 2012. Unwaith y byddai'r Pwyllgor hwnnw wedi ei gynnull yn gyfreithlon gydag aelod/aelodau lleyg cymwys wedi eu penodi, gallai'r Pwyllgor ethol Cadeirydd ac Is-Gadeirydd yn gyfreithlon.

**Er mwyn unioni'r sefyllfa y cyfeiriwyd ati yn yr adroddiad i'r Cyngor heddiw, PENDERFYNWYD cadarnhau cofnodion drafft y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 24 Mai 2012.**

4. **CYNLLUN CYFLAWNI AR GYFER CYMUNEDAU'N GYNTAF YM MÔN**

(a) Adroddwyd – Bod y Bwrdd Comisiynwyr, yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Mehefin, 2012 wedi penderfynu, ymysg pethau eraill, *'bod y Cynllun Cyflawni terfynol yn cael ei gadarnhau mewn cyfarfod arbennig o'r Cyngor Sir ar 27 Mehefin 2012'.*

(b) Cyflwynwyd i'w gymeradwyo – Copi o'r Cynllun Cyflawni Terfynol ar gyfer Cymunedau'n Gyntaf, cyn iddo gael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 29 Mehefin 2012.

Gofynnodd rhai o'r Aelodau gwestiynau ynghylch cynnwys yr adroddiad ac fe gafwyd yr atebion gan y Gwasanaeth.

**PENDERFYNWYD cadarnhau cynnwys y Cynllun Cyflawni i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru.**

5. **ADOLYGU TREFNIADAU ETHOLIADOL AR GYFER CYNGOR SIR YNYS MÔN – ADRODDIAD A CHYNIGION GAN GOMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU (MAI 2012)**

(a) Cyflwynwyd – Adroddiad y Prif Weithredwr yn amlinellu cefndir ac argymhellion Panel Tasg a Gorffen yr Aelodau mewn perthynas â'r uchod. Soniodd ei fod hefyd wedi derbyn gohebiaeth gan Gyngor Tref Amlwch a Chynghorau Tref Llanfihangel

Draft

Esceifiog, Rhoscolyn a Threarddur na ddaethant i law mewn digon o amser i'r Panel eu hystyried.

Fel Cadeirydd y Panel Adolygu Etholiadol, rhoddwyd cyfle i'r Cynghorydd Keith Evans annerch y Cyngor ynghylch argymhellion y Panel.

Dywedodd fod y Panel wedi argymell y dylid cymeradwyo'r cysyniad o wardiau aml-aelod yn unfrydol a derbyn hefyd y gellid rhedeg y Cyngor gyda nifer ostyngol o 30 o aelodau ond bod achos efallai i godi'r rhif i 32 a fyddai'n ei gwneud hi'n haws i drefnu Pwyllgorau Sgriwtini effeithiol ac a fyddai'n adlewyrchiad gwell o'r angen i oresgyn problemau maint daearyddol mewn wardiau gwledig. Fodd bynnag, cydnabuwyd y byddai cynnydd o'r fath yn debygol o greu problemau mawr o fewn yr amserlen. Roedd yr argymhellion a oedd yn weddill yn ymwneud â newid enwau a throsglwyddo cymunedau a wardiau.

Rhoddwyd cyfle i Aelodau'r Panel gyflwyno eu sylwadau hefyd.

Cyfeiriodd rhai o'r Aelodau at gynigion y Comisiwn Ffiniau yn achos Gwynedd a oedd yn caniatáu rhywfaint o wardiau un aelod.

Dywedodd y Cynghorydd G. O. Parry MBE ei fod wedi cael sylwadau gan aelod nad oedd yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod heddiw ac a oedd wedi gofyn iddo gyfleu'r sylwadau hynny i'r Cyngor.

Cynigiwyd (y prif gynnig) gan y Cynghorydd J. Arwel Roberts (ac fe gafodd ei eilio) y dylid derbyn adroddiad y Comisiwn Ffiniau, h.y. 30 o aelodau mewn 11 o wardiau aml-aelod.

Cynigiwyd y newidiadau isod i'r prif gynnig o'r llawr:-

- Cynigiwyd gan y Cynghorydd E. G. Davies y dylid cadw enw Bro Rhosyr (yn hytrach na Braint) ac y dylai ward Cwm Cadnant aros o fewn ardal Biwmares a Llangoed yn hytrach na'i chyfuno gyda Phorthaethwy fel y sonnir yn argymhellion y Panel. [Ni chafodd y cynnig ei eilio].

- Cynigiwyd gan y Cynghorydd G. W. Roberts OBE (ac fe gafodd ei eilio) y dylid creu 14 o wardiau un aelod a 6 o wardiau aml-aelod gyda chyfanswm o 30 o aelodau. Pleidleisiwyd ar y gwelliant ond ni chafodd ei gario.
  *(Roedd y Cynghorwyr D. R. Hughes, G. W. Roberts OBE, H. W. Thomas ac E. Schofield yn dymuno cofnodi eu bod wedi pleidleisio o blaid y gwelliant uchod).*

  *(Roedd yr Arweinydd yn dymuno cofnodi nad oedd wedi pleidleisio ar y mater oherwydd na roddwyd cyfle iddo siarad gan y Cadeirydd).*

- Cynigiwyd gan y Cynghorydd T. Ll. Hughes (ac fe gafodd ei eilio) y dylid derbyn argymhellion 4.1 - 4.6 yn yr adroddiad gan y Panel Adolygu Etholiadol. Pleidleisiwyd ar y gwelliant ond ni chafodd ei gario.

- Cynigiwyd gan y Cynghorydd G. O. Parry MBE (ac fe gafodd ei eilio) y dylid bod 32 o aelodau mewn 11 o wardiau aml-aelod. Ni chafodd y gwelliant ei gario.

  *(Roedd y Cynghorydd W. I. Hughes yn dymuno cofnodi nad oedd y Cadeirydd wedi caniatáu iddo siarad ar y mater).*

Draft

*Roedd y Cynghorydd J. V. Owen hefyd yn dymuno cofnodi nad oedd wedi pleidleisio ar y mater oherwydd na chaniatawyd iddo siarad arno, a bod hynny'n tynnu'n groes i'r cyngor a roddwyd i'r Cadeirydd gan y Swyddog Monitro mewn perthynas â chaniatáu i aelodau siarad.*

Pleidleisiwyd ar y prif gynnig a wnaed gan y Cynghorydd J. Arwel Roberts yn gynharach ac fe gafodd ei gario.

*(Roedd y Cynghorwyr D. R. Hughes, W. T. Hughes, G. W. Roberts OBE a H. W. Thomas yn dymuno cofnodi eu bod wedi pleidleisio yn erbyn y prif gynnig).*

Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai penderfyniad y Cyngor heddiw yn cael ei ddrafftio ac, ar ôl ymgynghori gyda'r Arweinydd, Cadeirydd y Cyngor a Chadeirydd y Panel Adolygiad Etholiadol, byddai'n cael ei anfon ymlaen i Lywodraeth Cymru erbyn y dyddiad cau, sef 29 Mehefin.

(b) Cyflwynwyd er gwybodaeth – Copi o'r Adolygiad Etholiadol: Papur Ymgynghori ar Bolisi Meintiau Cynghorau (Mai 2012).

**PENDERFYNWYD derbyn yr argymhellion yn Adroddiad a Chynigion Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru ar gyfer Sir Ynys Môn (Mai 2012).**

Daeth y cyfarfod i ben am 1:15pm

**Y CYNGHORYDD R. LL. JONES**
**CADEIRYDD**

Draft